



Ein cyf WAQ79290 / WAQ79291

Adam Price AC

Adam.Price@assembly.wales

19 Chwefror 2020

Annwyl Adam,

Diolch am eich Cwestiynau Ysgrifenedig i'r Cynulliad ynghylch y swyddi a'r cymhorthdal a roddir i annog busnesau o'r tu allan i Gymru i sefydlu eu hunain neu ddatblygu eu hunain yng Nghymru ers 2011.

Nid yw systemau casglu data Llywodraeth Cymru fel y maent ar hyn o bryd, yn nodi yr wybodaeth benodol rydych am ei gael. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar eich gofynion, gellir darparu'r canlynol:

- (i) gweld yr holl fargeinion newydd a gofnodwyd o ran maint a swyddi pan wnaethant eu cynnig a hefyd unrhyw ail-fuddsoddi o dramor. Mae hwn yn gofnod o bob buddsoddiad (cyhoeddus a phreitat) ar adeg eu cyhoeddi.
- (ii) am gyfnod o dair blynedd, ffigur lefel uchel o'r cyllid a'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer busnesau sy'n berchen i gwmnïau o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys gwybodaeth am gwmnïau rhiant ar gyfer yr holl fusnesau sy'n derbyn cyllid.

Buaswn yn ddiolchgar gwybod a hoffech i'r wybodaeth hon gael ei pharatoi ar eich cyfer a hefyd a ydych yn dymuno i'm swyddogion baratoi briff ar lafar i ategu hyn, ar amser cyfleus ichi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, gan ei fod o fewn ei phortffolio.

Yn gywir,

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.